

Cynhaliwyd Cyfarfod o Bell o Gyngor Cymuned Talylychau trwy fideo/dros y ffôn nos Fawrth, 5 Ionawr 2021, am 8pm.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Trwy fideo – Sarah Walters (Cadeirydd), Janine Roberts, Steve Haines, Rhys Williams, Eifion Roberts, y C. S. Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Dros y Ffôn – Marged Bowen a John Williams.

Datganiad buddiant – Dim.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 01.12.2020 yn gywir.

Materion sy'n codi.

Rheoliadau ynghylch taliadau i Gynghorwyr. Cafwyd y neges e-bost ganlynol gan Un Llais Cymru ynghylch yr ymholiadau. Traul yw pan fyddwch yn ad-dalu rhywun am dreuliau (h.y. costau) yr aethpwyd iddynt wrth wneud swydd. Os ydych yn talu unigolyn i wneud swydd, mae Cyllid a Thollau EM yn diffinio hynny'n gyflogaeth. Ni allwch dalu Cynghorydd i wneud gwaith, ond opsiwn fyddai ystyried y ddarpariaeth ar gyfer taliadau am dreuliau cyffredinol gan yr IPRW i Gynghorwyr, a hynny ar gyfer cyfrifoldebau penodol y Cyngor.

Datganiad o'r cyfrif. Balans ar 24.12.2020, £8,065.64 gan gynnwys taliad praesept o £3,333.33.

Cytunwyd i dalu'r canlynol: Cyflog y Clerc, J. Morgan, £168.88. CThEM £42.20. Gwasanaeth Cyfieithu Trywydd ar gyfer Medi a Hydref. £62.57. Zurich Municipal £393.31.

Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd trwy e-bost.

Cafwyd rhifyn Ionawr o *Clerks & Councils Direct*.

Archwilio Cymru. Cafwyd amserlen ar gyfer y trefniadau archwilio newydd. Roedd yn nodi pa flwyddyn y byddai cynghorau'n cael yr archwiliad seiliedig ar drafodion a'r ddwy flynedd y byddai'r gweithdrefnau archwilio sylfaenol yn cael eu gweithredu.

Talylychau. 2020-21 – LLAWN. 2021-22 – SYLFAENOL. 2022-23 – SYLFAENOL.

Taliadau i aelodau Cynghorau Cymuned a Thref. Yn sgil trafodaeth, cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon y Ffurflen Optio Allan at yr holl Gynghorwyr fel y gallent wneud eu penderfyniad. Byddai'r angen llenwi'r ffurflen a'i dychwelyd at y Clerc cyn diwedd y Flwyddyn Ariannol os oeddent yn penderfynu optio allan.

Gofyniad Praesept 2021-22. Roedd yr ohebiaeth wedi cael ei hanfon ymlaen trwy e-bost at sylw'r holl Gynghorwyr. Roedd y gyllideb wedi cael ei hadolygu gan ddefnyddio Mantolen y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r Adroddiad Ariannol diweddaraf a'r gwariant amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn sgil trafodaeth, cytunwyd y dylid gwneud cais am braesept o £10,000.00, yn yr un modd â'r flwyddyn gynt.

Mynwent yr Eglwys. Beddau y mae angen rhoi sylw iddynt. Cafwyd dyfynbris gan Gareth Evans i osod tair carreg fedd yn fflat. £30 yr un ynghyd â £10 am deithio. Cyfanswm o £100. Cytunwyd y dylid derbyn hwn. Y gwaith i'w gwblhau cyn gynted â phosibl.

Ffioedd Claddu ym Mynwent yr Eglwys.

Cytunwyd i'w cynyddu fel a ganlyn o ddyddiad heddiw 05.01.2021.

Prynu Bedd o £70.00 i £140.00

Ffioedd gweinyddu o £70.00 i £140.00

Cofeb o £20.00 i £40.00.

Arysrif Ychwanegol o £10.00 i £20.00.

Perchnogaeth Mynwent yr Eglwys. Roedd y Clerc wedi siarad â'r Ficer Tim Nelson, a hoffai ddod i un o gyfarfodydd y Cyngor, i'w drafod pan allai wneud hynny.

Nid oedd unrhyw Geisiadau Cynllunio.

Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.25pm. Byddai'r cyfarfod nesaf o bell yn cael ei gynnal nos Fawrth, 2 Chwefror 2021 am 8 p.m.